TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# Agored Cymru Dychwelyd i Ddysgu â€“ Sgiliau ar gyfer Astudiaethau Pellach Lefel 2



**Yn gryno**

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i'ch helpu chi i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch i symud ymlaen i'n cwrs Mynediad i Addysg Uwch, neu unrhyw gyrsiau lefel 3 eraill.

Mae wedi'i gynllunio ar gyfer dysgwyr sydd, o bosib, wedi bod allan o addysg lawn amser am 2 flynedd o leiaf, er mwyn eich helpu i loywi a dysgu'r sgiliau astudio hanfodol sydd eu hangen arnoch i lwyddo.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

.....Ydych yn chwilio am gyflogaeth a byddech yn hoffi datblygu set sgiliau fwy amrywiol

.....Ydych wedi bod allan o addysg am 2 flynedd o leiaf ac rydych yn awyddus i symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch

.....Ydych yn benderfynol o wneud yn dda ac eisiau gwella eich sgiliau.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Nod y cwrs yw gwella eich sgiliau rhifedd a llythrennedd drwy gynnig Lefel 1 Mathemateg a Lefel 2 Saesneg. Byddwch hefyd yn cael cyflwyniad i Fioleg, Gwyddoniaeth Gyffredinol, Cymdeithaseg, Seicoleg a'r Dyniaethau, a byddwch yn dysgu sgiliau ymchwil gwerthfawr, a fydd yn hanfodol ar gyrsiau Lefel 3 eraill.

Byddwch yn cael eich asesu drwy amrywiaeth o aseiniadau, gan gynnwys gwaith cwrs ysgrifenedig a byddwch yn ennill:

Astudiaeth Bellach neu Sgiliau Lefel 2
Cymwysterau ategol priodol i ehangu eich set sgiliau
Gweithgareddau Sgiliau

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Mae agwedd benderfynol at lwyddo, angerdd am ddysgu a diddordeb brwd i wella eich sgiliau rhifedd a llythrennedd yn angenrheidiol ar gyfer y cwrs hwn. Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd tuag at y pwnc â'r gallu i gymell eich hun.

Byddwch yn cael eich asesu yn barhaol ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn yn llwyddiannus, byddwch yn gallu symud ymlaen i gyflogaeth neu gwrs
Mynediad i Addysg Uwch.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae yna brawf coleg sy'n rhaid i bob ymgeisydd ei basio fel rhan o'r gofynion mynediad.